



CYMRU EURO 2025

MEDIA GUIDE /

PECYN Y WASG

FOR US.
FOR THEM.
FOR HER.



EWRO
2025



HISTORY OF THE CYMRU WNT



The history of the Cymru women's national team and the story behind it continues to inspire the current squad of players as they prepare to represent their country on the biggest stage. It is an inspirational story that shows how anything is possible with determination and belief, and how the trailblazers of the past paved the way for the superstars of today to shine at the highest level of the European game.

It was just over 50 years ago that the 50-year ban on women's football was lifted. An unthinkable situation now, but this was the reality of the time. In May 1973, Cymru played their first international match against the Republic of Ireland in Llanelli. Ireland won 3-2 in what was also their first match in front of around 3,500 supporters. The team had no affiliation to the Football Association of Wales, and borrowed kit from Swansea City FC.

For the next two decades, amateur trailblazers committed their time to represent Cymru in sporadic fixtures at their own expense. These individuals kept the women's game alive and were recognised at a special presentation at St. Fagan's Museum last year when 47 official FAW caps

to those who played between 1973 and 1992 were awarded. It was an emotional night for all those in attendance.

Four key figures changed the direction of women's football in Wales in 1992. Players Michelle Adams, Karen Jones and Laura McAllistar arranged a meeting with then FAW secretary general Alun Evans. Despite a lack of financial resource, Cymru now had an official women's team and played their first match against Iceland at Afan Lido in September 1993. From there, Cymru entered UEFA qualifying in 1995. However, the challenges remained as the players suffered with unsuitable kit, facilities and a lack of general support.



Due to travelling costs, the FAW withdrew the side from EURO 2005 qualifying after the draw was made. It was a seismic blow for those involved, but it was a low point that accelerated the need for change. Despite the setbacks, those with a passion for the women's game continued to campaign for progress, and a significant shift was made in 2010 when Jarmo Matikainen was appointed as the first full-time head coach of the Cymru women's national team. The popular Finnish coach was tasked



with developing a professional environment across all aspects of the game in Wales while also coaching the WU17, WU19 and senior teams. “Wales is a country of excellent football tradition,” he explained at the time of his appointment. “There is clearly potential with the players and the national team as well.”

Cymru would finish third in their qualifying group for EURO 2013 and missed out on a place at the finals, but Matikainen would lead a team at a major tournament as Wales hosted the UEFA WU19 Championship that summer. Current senior team captain Angharad James was part of that side, making her the only player in the current senior squad to have played at the finals of a tournament.

Having changed the mindset and culture, Matikainen would call time on his Welsh football experience in 2014, but he left a lasting legacy with his professional approach and dedication to raising the standards across the board. Former Cymru striker Jayne Ludlow was part of that crossover as her own playing career came to an end, and was elevated into the main position of Cymru head coach in October 2014.

Cymru came close to qualifying for major tournament’s under Ludlow but could not get over the line. However, the professionalism associated with the team was unrecognisable from just a decade before. Gemma Grainger was appointed as her successor in March 2021 and brought a new dimension to the side, building on the defensive stability that Ludlow and instilled and implementing a more attacking approach. World Cup qualification attracted record attendances, but a play-off defeat delivered the same heartbreak.

Rhian Wilkinson completes the story and takes us to our current place. Inspiring a new confidence and belief to a talented group of players, Wilkinson has brought out the very best of her squad during the last qualifying campaign and will not go to Switzerland just to make up the numbers. Finally delivering success after so many disappointments, Cymru head to EURO 2025 as the pride of all those who have gone before, especially the pioneers who smashed through glass ceilings for those who wear the shirt today.



HANES TÎM CENEDLAETHOL MENYWOD CYMRU



Mae hanes tîm cenedlaethol menywod Cymru a'r stori y tu ôl iddo yn parhau i ysbrydoli'r garfan bresennol o chwaraewyr wrth iddynt baratoi i gynrychioli eu gwlad ar y llwyfan mwyaf. Mae'n stori ysbrydoledig sy'n dangos sut mae unrhyw beth yn bosibl gyda natur benderfynol a chred, a sut mae arloeswyr y gorffennol wedi paratoi'r ffordd i sêr heddiw ddisgleirio ar lefel uchaf y gêm Ewropeaidd.

Ychydig dros 50 mlynedd yn ôl y codwyd y gwaharddiad 50 mlynedd ar bêl-droed menywod. Sefyllfa sy'n anodd ei chredu heddiw, ond dyna oedd realiti'r cyfnod. Ym mis Mai 1973, chwaraeodd Cymru ei gêm ryngwladol gyntaf yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon yn Llanelli. Enillodd Iwerddon o 3-2 yn eu gêm gyntaf o flaen tua 3,500 o gefnogwyr. Nid oedd gan y tîm unrhyw gysylltiad â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, ac roeddent wedi benthyg cit gan Glwb Pêl-droed Dinas Abertawe.

Dros y ddau ddegawd nesaf, ymrwymodd arloeswyr amatur eu hamser i gynrychioli Cymru mewn gemau achlysurol ar eu cost eu hunain. Cadwodd yr unigolion hyn gêm y menywod yn fyw a chawsant eu cydnabod mewn cyflwyniad arbennig yn Amgueddfa Sain Ffagan y llynedd pan ddyfarnwyd 47 o gapiau swyddogol Cymdeithas Bêl-droed Cymru i'r rheini a

chwaraeodd rhwng 1973 ac 1992. Roedd hi'n noson emosiynol i bawb a oedd yn bresennol. Newidiodd bedwar ffigur allweddol gyfeiriad pêl-droed menywod yng Nghymru ym 1992. Trefnodd y chwaraewyr Michelle Adams, Karen Jones a Laura McAllistar gyfarfod gydag ysgrifennydd cyffredinol Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Alun Evans. Er gwaethaf diffyg adnoddau ariannol, erbyn hyn roedd gan Gymru dîm menywod swyddogol a chwaraeodd eu gêm gyntaf yn erbyn Gwlad yr Iâ yn Afan Lido ym mis Medi 1993. Oddi yno, cofrestrodd Cymru ar gyfer gemau rhagbrofol UEFA ym 1995. Fodd bynnag, roedd yr heriau'n parhau wrth i'r chwaraewyr ddioddef oherwydd offer a chyfleusterau



anaddas a diffyg cefnogaeth gyffredinol. Oherwydd costau teithio, tynnodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru'r tîm yn ôl o gemau rhagbrofol EWRO 2005 ar ôl cyhoeddi'r grwpiau. Yr oedd yn ergyd enfawr i'r rhai a oedd yn gysylltiedig, ond yr oedd yn bwynt isel a gynyddodd yr angen am newid. Er gwaethaf yr anawsterau, parhaodd y rheini a oedd yn frwd dros gêm y menywod i ymgyrchu dros gynnydd, a gwnaed newid sylweddol yn 2010 pan benodwyd Jarmo Matikainen yn brif hyfforddwr amser llawn cyntaf tîm cenedlaethol menywod Cymru.



Cafodd yr hyfforddwr poblogaidd o'r Ffindir y dasg o ddatblygu amgylchedd proffesiynol ar draws pob agwedd ar y gêm yng Nghymru ar yr un pryd â hyfforddi'r timau D17, D19 a'r timau cyntaf. "Mae gan Gymru draddodiad pêl-droed rhagorol," esboniodd ar adeg ei benodi. "Mae'n amlwg bod potensial gyda'r chwaraewyr a'r tîm cenedlaethol hefyd."

Byddai Cymru yn dod yn drydydd yn eu grŵp rhagbrofol ar gyfer EWRO 2013 ac yn methu â mynd drwodd i'r rowndiau terfynol, ond byddai Matikainen yn arwain tîm mewn twrnamaint mawr wrth i Gymru gynnal Pencampwriaeth D19 UEFA i Ferched yr haf hwnnw. Roedd capten presennol y tîm cyntaf, Angharad James, yn aelod o'r tîm hwnnw, sy'n golygu mai hi yw'r unig chwaraewr yn y garfan gyntaf bresennol i chwarae mewn rowndiau terfynol twrnamaint.

Ar ôl newid y meddylfryd a'r diwylliant, byddai Matikainen yn dod â'i amser gyda Chymru i ben yn 2014, ond gadawodd waddol parhaol gyda'i agwedd broffesiynol a'i ymroddiad i godi'r safonau'n gyffredinol. Roedd cyn-ymosodwraig Cymru Jayne Ludlow yn rhan o'r cyfnod pontio hwnnw wrth i'w gyrfa chwarae ei hun ddod i ben, a chafodd ei dyrchafu i swydd prif hyfforddwr Cymru ym mis Hydref 2014.

Daeth Cymru yn agos at gyrraedd twrnameintiau mawr dan reolaeth Ludlow ond ni allai groesi'r llinell. Fodd bynnag, o ran proffesiynoldeb, roedd y tîm wedi cymryd camau mawr ymlaen mewn cyfnod o ddegawd. Penodwyd Gemma Grainger yn olynydd iddi ym mis Mawrth 2021 a daeth â dimensiwn newydd i'r tîm, gan adeiladu ar y sefydlogrwydd amddiffynnol a sefydlodd Ludlow a gweithredu dull mwy ymosodol. Denodd rownd ragbrofol Cwpan y Byd fwy o dyrfaodedd nag erioed o'r blaen, ond bu i golli gêm ail gyfle arwain at yr un tor-calon.

Rhian Wilkinson sy'n cwblhau'r stori ac yn dod â ni i'r presennol. Gan ysbrydoli hyder a chred newydd ymysg grŵp talentog o chwaraewyr, mae Wilkinson wedi cael y gorau o'i charfan yn ystod yr ymgyrch ragbrofol ddiwethaf ac ni fydd yn mynd i'r Swistir dim ond i gymryd rhan. Gan sicrhau llwyddiant ar ôl cymaint o siomedigaethau, mae Cymru'n mynd i EWRO 2025 yn destun balchder i'w holl ragflaenwyr, yn enwedig yr arloeswyr a dorrodd dir newydd dros y rheini sy'n gwisgo'r crys heddiw.

RHIAN WILKINSON PROFILE



Rhian Wilkinson had little time to prepare for the challenge of leading Cymru through EURO 2025 qualifying, but the former Canadian international arrived on the eve of the campaign with a clear plan on how to deliver success and make history with a national team that had faltered too many times at the final hurdle.

There is no doubt that Wilkinson has instilled a new sense of belief into this Cymru team, and a string of impressive performances in the UEFA Nations League A fixtures that included two 1-1 draws with Sweden shows just how far the side has evolved since her appointment. Cymru head to Switzerland as the lowest-seeded team at the tournament, but there is a confidence within the group that continues to defy the odds.

Wilkinson was born in Quebec, Canada, to an English father and Welsh mother, and actually spent a few years living in Cowbridge where she attended Bont Faen

Primary School between 1989 and 1991.

“Spending time at Bont Faen meant I made lots of friends and got to know the area well,” said Wilkinson in 2012. “It’s where my mum grew up, so I certainly feel that Wales is my second home. There is a huge affinity.”

However, it was in the United States, Norway and Canada where Wilkinson would make her name as an established international defender, winning a bronze medal at the 2012 Olympic Games in London and again at the 2016 Olympic Games in Brazil.

Wilkinson represented Canada between 2003 and 2017, scoring seven goals in 183 games for her country, and also spent a number of years playing club football in Norway with Team Strømmen. An all-rounder, Wilkinson also played ice hockey and rugby during her teenage years, but it was her talent and passion for football that would define her sporting career over the course of the next two decades.



Following her retirement in 2017, Wilkinson moved into coaching and worked with the Canadian intermediate teams at U17 and U20 level, before moving up to the senior squad as assistant manager. In 2021, Wilkinson was reunited with her former team-mate and coach from Team Strømmen as Hege Riise took temporary charge of England and appointed Wilkinson as her assistant. The duo would also take charge of Team GB at the Olympic Games in Tokyo.

Inducted into the Canada Soccer Hall of Fame in 2022, it would also prove to be a defining year for Wilkinson in her coaching career as she was appointed head coach of Portland Thorns in November 2021. Upon her unveiling, Wilkinson highlighted the influence of John Herdman, the former head coach of the Canadian men's and women's national team, and provided some insight into her own coaching philosophy.

"He was my greatest coaching influence," said Wilkinson in 2021. "He is so clear on how he believes the game should be played. What I have taken from him is being real clear on the structures, and creativity comes from the structure. I believe that has really informed how I like to coach, and I think the clarity players need in order to perform."

"One of the first things you're asked as a coach is what's your philosophy, and it's a huge question, because usually if you haven't got the experience, you end up just following what you know. So, for me, it was very important to work for different types of coaches after John Herdman, because he is such a strong personality and influence."

Wilkinson would achieve incredible success at Portland, leading the side to the NWSL Championship the following year to win the title for the third time in their history. That achievement in itself had already established Wilkinson's reputation as a talented coach, but her immediate success with Cymru has no doubt enhanced her status and the challenge now is to ensure her side have no regrets in Switzerland this summer.

"I think I've inherited a team at the exact right moment to them to do something special," explained Wilkinson earlier this year. "I think they're a testament to all the people that came before and all the players that came before, and that my arrival was maybe just that kind of new coach at the right time who was able to ask them to do things that maybe in the past they weren't ready for, and that now, they're ready to try."





PROFFIL RHIAN WILKINSON



Ychydig iawn o amser a gafodd Rhian Wilkinson i baratoi ar gyfer yr her o arwain Cymru drwy gemau rhagbrofol EWRO 2025, ond cyrhaeddodd y cyn-chwaraewraig ryngwladol o Canada ar drothwy'r ymgyrch gyda chynllun clir ar gyfer sut i sicrhau llwyddiant a chreu hanes gyda thîm cenedlaethol a oedd wedi boddi wrth y lan gymaint o weithiau.

Nid oes amheuaeth bod Wilkinson wedi ennyn ymdeimlad newydd o gred yn y tîm Cymru hwn, a chyfres o berfformiadau trawiadol yng Nghynghrair Cenedloedd UEFA A a oedd yn cynnwys dwy gêm gyfartal 1-1 yn erbyn Sweden, sy'n dangos pa mor bell y mae'r tîm wedi esblygu ers iddi gael ei phenodi. Mae Cymru'n mynd i'r Swistir fel y detholion isaf yn y twrnament, ond mae hyder yn y grŵp sy'n parhau i herio'r disgwyliadau.

Ganwyd Wilkinson i dad o Loegr a mam o Gymru yn Quebec, Canada, a threuliodd ychydig o flynyddoedd yn byw yn y Bont-faen lle bu'n mynychu Ysgol Gynradd Bont -faen rhwng 1989 a 1991. "Roedd treulio amser yn y Bont-faen yn

golygu fy mod wedi gwneud llawer o ffrindiau ac wedi dod i adnabod yr ardal yn dda," meddai Wilkinson yn 2012. "Dyma lle cafodd fy mam ei magu, felly rwy'n sicr yn teimlo mai Cymru yw fy ail gartref. Mae perthynas agos iawn rhyngom ni."

Fodd bynnag, yn yr Unol Daleithiau, Norwy a Chanada y byddai Wilkinson yn gwneud ei henw fel amddiffynwraig ryngwladol sefydledig, gan ennill medal efydd yng Ngemau Olympaidd 2012 yn Llundain ac eto yng Ngemau Olympaidd 2016 ym Mrasil.

Cynrychiolodd Wilkinson Canada rhwng 2003 a 2017, gan sgorio saith gôl mewn 183 gêm i'w gwlad, a threuliodd nifer o flynyddoedd hefyd yn chwarae pêl-droed clwb yn Norwy gyda Team Strømmen. Yn hynod amryddawn, chwaraeodd Wilkinson hoci iâ a rygbi yn ystod ei harddegau, ond ei thalent a'i hangerdd dros bêl-droed fyddai'n diffinio ei gyrfa ym maes chwaraeon dros y ddau ddegawd nesaf.

Ar ôl ymddeol yn 2017, symudodd Wilkinson i faes hyfforddi a gweithio gyda thimau canolradd



PROFFIL RHIAN WILKINSON

Canada ar lefel dan 17 a than 20, cyn symud i fyny i'r garfan gyntaf fel is-reolwraig. Yn 2021, cafodd Wilkinson ei haduno â'i chyn-gyd-chwaraewraig a'i hyfforddwraig o Team Strømmen wrth i Hege Riise gymryd cyfrifoldeb dros dro ar dîm Lloegr a phenodi Wilkinson yn gynorthwydd iddi. Byddai'r ddwy hefyd yn gyfrifol am Dîm Prydain Fawr yn y Gemau Olympaidd yn Tokyo.

Cafodd ei chynnwys yn Oriel Anfarwolion Pêl-droed Canada yn 2022, a byddai hefyd yn flwyddyn ddiffiniol i Wilkinson yn ei gyrfa hyfforddi wrth iddi gael ei phenodi'n brif hyfforddwr Portland Thorns ym mis Tachwedd 2021. Wrth gael ei chyflwyno, tynnodd Wilkinson sylw at ddylanwad John Herdman, cyn-brif hyfforddwr tîm cenedlaethol dynion a menywod Canada, a rhoddodd gipolwg ar ei hathroniaeth hyfforddi ei hun.

"Ef oedd fy nylanwad hyfforddi mwyaf," meddai Wilkinson yn 2021. "Mae mor glir ynghylch sut mae'n credu y dylid chwarae'r gêm. Yr hyn yr wyf wedi'i gael ganddo yw bod yn gwbl glir ynghylch y strwythurau, a daw creadigrwydd o'r strwythur. Rydw i'n credu bod hynny wir wedi dylanwadu ar sut rydw i'n hoffi hyfforddi, sef yr eglurder sydd ei angen ar chwaraewyr er mwyn perfformio."

"Un o'r pethau cyntaf sy'n cael ei ofyn i chi fel hyfforddwr yw beth yw eich athroniaeth, ac mae'n gwestiwn enfawr, oherwydd fel arfer os nad oes gennych chi'r profiad, rydych chi'n dilyn yr hyn rydych chi'n ei wybod. Felly, i mi, roedd yn bwysig iawn gweithio i wahanol fathau o hyfforddwyr ar ôl John Herdman, oherwydd mae ganddo bersonoliaeth a dylanwad mor gryf."

Byddai Wilkinson yn cael llwyddiant anhygoel yn Portland, gan arwain y tîm i Bencampwriaeth NWSL y flwyddyn ganlynol gan ennill y teitl am y trydydd tro yn eu hanes. Roedd y llwyddiant hwnnw ynddo'i hun eisoes wedi sefydlu enw da Wilkinson fel hyfforddwr talentog, ond mae'n

siŵr bod ei llwyddiant di-oed gyda Chymru wedi dyrchafu ei statws, a'r her nawr yw sicrhau nad yw ei thîm yn difaru dim yn y Swistir yr haf hwn.

"Dwi'n meddwl fy mod i wedi etifeddu tîm ar yr union adeg iawn iddyn nhw wneud rhywbeth arbennig," esboniodd Wilkinson yn gynharach eleni. "Dwi'n meddwl eu bod nhw'n destament i'r holl bobl a ddaeth o'u blaen a'r holl chwaraewyr a ddaeth o'u blaen, ac efallai fod fy mhenodiad i fel hyfforddwr newydd wedi digwydd ar yr adeg iawn, ac roeddwn yn gallu gofyn iddyn nhw wneud pethau nad oedden nhw'n barod ar eu cyfer efallai yn y gorffennol, ac erbyn hyn, maen nhw'n barod i roi cynnig arnyn nhw."





ROAD TO THE FINALS



It was the international story that topped-and-tailed 2024 as Cymru finally made history and qualified for their first major women's tournament on a December night in Dublin. It was a remarkable conclusion to a year that began with former head coach Gemma Grainger departing her position on the eve of the EURO 2025 qualifying campaign, but Rhian Wilkinson hit the ground running and delivered what generations before had only dreamed of.

In an ironic twist, Wilkinson's introduction to her squad was to watch them defeat the Republic of Ireland 2-0 in a February friendly, with little indication of what would follow later in the year. Appointed just a couple of days before, the former Canadian international with Welsh roots met with the squad for the first time and she would need to make an immediate impression with the qualifying campaign scheduled to start in April.

The draw for the first stage of EURO 2025 qualifying took place in March with Cymru

joining Croatia, Ukraine and Kosovo in Group B4. Wilkinson would enjoy the perfect start to her tenure as Cymru dominated in a 4-0 win over Croatia at the STōK Cae Ras in Wrexham in April in front of just over 4,000 fans. A double from Jess Fishlock was followed by further goals from Rachel Rowe and Angharad James to complete the scoring, and the goals continued a few days later as the side scored six against Kosovo without reply.

In a surprise announcement, Sophie Ingle confirmed that she was relinquishing the Cymru captaincy after leading the team for almost a decade, with Angharad James later claiming the armband. A double-header against Ukraine would see Cymru drop points and concede for the first time in the campaign as a 1-1 draw in Llanelli was followed by a 2-2 draw in the neutral venue of Poland.

Cymru would travel to Croatia in July and the side reacted to the Ukraine setback in style with a 3-0 win thanks to goals from Fishlock, Ingle a penalty from Kayleigh Barton. The first stage of the campaign would come to a close at Parc-y-Scarlets a few days later as Kosovo were defeated 2-0 through a record-breaking strike from Fishlock and a first senior international goal for Mary McAteer. Cymru would top the group, achieve promotion to League A and head into the Play-Offs undefeated.

With the momentum in their favour, Cymru were confident heading to Slovakia for the EURO Play-Off Semi-Final 1st leg match in October. However, it proved to be a difficult night as Slovakia claimed a shock 2-1 win,

although a late consolation goal from Ffion Morgan off the bench would prove crucial ahead of the return match in Cardiff.

Over 10,500 fans would be in attendance at the Cardiff City Stadium for the decisive match. Big games require big characters and it was Fishlock who levelled the tie just before half-time. Cymru enjoyed long periods of possession and created plenty chances, but extra-time would be required before Ceri Holland scored the crucial second goal to take Cymru through to the Play-Off Final 3-2 on aggregate.

Record ticket sales for the 1st leg of the Play-Off Final confirmed that the momentum had spread across the country and 16,845 fans would witness a physical encounter between Cymru and the Republic of Ireland in Cardiff. Despite a strong start from the visitors, Lily Woodham would open the scoring for home side midway through the opening half, but a cruel deflection off the crossbar would level the score as the two teams prepared to meet again in Dublin.

And what a night it would be. A winner-takes-all match in front of over 25,000 fans at the Aviva Stadium did not disappoint. Wilkinson made two changes to her starting line-up and Cymru would benefit from a VAR review early in the second half. Hannah Cain took the responsibility of dispatching the resulting penalty before substitute Carrie Jones added a second goal. Ireland threw everything at the Cymru defence, and while they pulled a goal back through Anna Patten late on, they had no time to equalise.

The final whistle brought an outpouring of emotion. Cymru had finally done it. Some players ran in different directions, some fell to their knees, everyone cried tears of joy. The euphoria of being the first team to ever take Cymru to a women's major tournament was too much to take in for those that have been on this journey for so many years. Centurions like Fishlock, Ingle and James must have wondered if this day would ever come. Wilkinson had delivered on her promise. This was indeed for us, for them, for her.





Y DAITH I'R ROWNDIAU TERFYNOL



Dyma'r stori ryngwladol a rychwantodd 2024 wrth i Gymru greu hanes o'r diwedd gan ennill eu lle yn eu twrnamaint mawr cyntaf i ferched ar noson o Ragfyr yn Nulyn. Yr oedd yn ddiweddsglo rhyfeddol i flwyddyn a ddechreuodd gyda'r cyn-brif hyfforddwr Gemma Grainger yn gadael ei swydd ar drothwy ymgyrch ragbrofol EWRO 2025. Ond aeth Rhian Wilkinson ati'n syth i gyflawni'r hyn yr oedd cenedlaethau o'i blaen wedi breuddwydio amdano.

Yn eironig, cyflwyniad Wilkinson i'w charfan oedd eu gwylio'n trechu Gweriniaeth Iwerddon 2-0 mewn gêm gyfeillgar ym mis Chwefror, heb fawr o arwydd o'r hyn a fyddai'n dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Fe'i penodwyd ychydig ddyddiau ynghynt, cyfarfu'r cyn-chwaraewraig ryngwladol o Canada, sydd â gwreiddiau Cymreig, â'r garfan am y tro cyntaf gan wybod y byddai angen iddi wneud argraff yn syth gyda'r ymgyrch ragbrofol i fod i ddechrau ym mis Ebrill.

Cyhoeddwyd y grwpiau ar gyfer cam cyntaf gemau rhagbrofol EWRO 2025 ym mis Mawrth gyda Chymru'n ymuno â Croatia, Wcráin a Kosovo yng Ngrŵp B4. Byddai Wilkinson yn mwynhau'r dechrau perffaith i'w chyfnod yn y

swydd wrth i Gymru ennill 4-0 yn erbyn Croatia yn y STök Cae Ras yn Wrecsam ym mis Ebrill o flaen ychydig dros 4,000 o gefnogwyr. Dilynwyd dwy gôl gan Jess Fishlock gan goliau pellach gan Rachel Rowe ac Angharad James i gwblhau'r sgorio, a pharhaodd y goliau ychydig ddyddiau'n ddiweddarach wrth i'r tîm sgorio chwech yn erbyn Kosovo heb ildio'r un.

Mewn cyhoeddiad annisgwyl, cadarnhaodd Sophie Ingle ei bod yn rhoi'r gorau i gapteniaeth Cymru ar ôl arwain y tîm am bron i ddegawd, gydag Angharad James yn ddiweddarach yn hawlio'r band braich. Mewn dwy gêm gefn-wrth-gefn yn erbyn Wcráin collodd Gymru bwyntiau ac ildio am y tro cyntaf yn yr ymgyrch wrth i gêm gyfartal 1-1 yn Llanelli gael ei dilyn gan gêm gyfartal 2-2 yn lleoliad niwtral Gwlad Pwyl.

Byddai Cymru yn teithio i Croatia ym mis Gorffennaf ac ymatebodd y tîm i'r siom yn erbyn Wcráin mewn steil gyda buddugoliaeth o 3-0 diolch i goliau gan Fishlock, Ingle, a chic gosb gan Kayleigh Barton. Byddai cam cyntaf yr ymgyrch yn dod i ben ym Mharc y Scarlets ychydig ddyddiau'n ddiweddarach wrth i Kosovo gael ei threchu 2-0 gyda record o gôl gan Fishlock a'r gôl ryngwladol gyntaf i Mary McAteer. Byddai Cymru'n gorffen ar frig y grŵp, yn cael dyrchafiad i Gynghrair A ac yn mynd i'r Gemau Ail Gyfle heb eu trechu.

Gyda'r momentwm o'u plaid, roedd Cymru'n hyderus yn mynd i Slofacia ar gyfer Cymal Cyntaf Gêm Ail Gyfle Gynderfynol EWRO ym mis Hydref. Fodd bynnag, bu'n noson anodd wrth i Slofacia hawlio buddugoliaeth annisgwyl o 2-1, er y byddai gôl gysur hwyr gan Ffion Morgan oddi ar y fainc yn hanfodol cyn yr ail gymal yng Nghaerdydd.

Roedd dros 10,500 o gefnogwyr yn bresennol yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar gyfer y gêm dyngedfennol. Mae angen cymeriadau mawr



Y DAITH I'R ROWNDIAU TERFYNOL

mewn gemau mawr, a Fishlock a unionodd y sefyllfa ychydig cyn hanner amser. Mwynhaodd Cymru gyfnodau hir o feddiant a chreu digon o gyfleoedd, ond byddai angen amser ychwanegol cyn i Ceri Holland sgorio'r ail gôl hanfodol i fynd â Chymru drwodd i Rownd Derfynol y Gemau Ail Gyfle 3-2 dros ddau gymal.

Roedd y nifer uchaf erioed o docynnau a werthwyd ar gyfer Cymal Cyntaf y Gêm Ail Gyfle wedi cadarnhau bod y momentwm wedi lledaenu ar draws y wlad a byddai 16,845 o gefnogwyr yn gweld gornest gorfforol rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon yng Nghaerdydd. Er gwaethaf dechrau cryf gan yr ymwelwyr, byddai Lily Woodham yn rhwydo gyntaf i'r tîm cartref hanner ffordd drwy'r hanner cyntaf, ond byddai gwyriad creulon oddi ar y trawst yn unioni'r sgôr wrth i'r ddau dîm baratoi i gwrdd eto yn Nulyn.

Ac am noson. Popeth yn y fantol gerbron dros 25,000 o gefnogwyr yn Stadiwm Aviva, a

chawson ni ddim ein siomi. Gwnaeth Wilkinson ddau newid i'w tîm i ddechrau'r gêm a byddai Cymru'n elwa o adolygiad VAR yn gynnar yn yr ail hanner. Cymerodd Hannah Cain y cyfrifoldeb dros rwydo'r gic gosb a ddeilliodd o hynny cyn i'r eilydd Carrie Jones ychwanegu ail gôl. Taflodd Iwerddon bopeth at amddiffyn Cymru, ac er i Anna Patten daro un yn ôl yn hwyr, nid oedd ganddynt amser i unioni'r sgôr.

Wedi'r chwiban olaf daeth llif o emosiwn. Roedd Cymru wedi llwyddo o'r diwedd. Rhedodd rai o'r chwaraewyr i wahanol gyfeiriadau, disgynnodd rai eu gliniau, a dagrau o lawenydd i'w cael gan bawb. Roedd yr ewfforia o fod y tîm cyntaf erioed i fynd â Chymru i bencampwriaeth fawr i ferched yn ormod i'r rheini sydd wedi bod ar y daith hon ers cymaint o flynyddoedd. Mae'n rhaid bod Canwriaid fel Fishlock, Ingle a James wedi pendroni a fyddai'r diwrnod hwn byth yn dod. Yr oedd Wilkinson wedi gwireddu ei haddewid. Roedd hyn yn rhywbeth i ni, iddyn nhw, ac iddi hi.



ALICE GRIFFITHS

CAP: 16 | GOALS: –

FIRST GAME:
Kazakhstan 2017/18



Name: Alice Griffiths

Age: 24 (22/01/01)

Hometown: Aberdare, Rhondda

Primary school: Abernant Primary

Secondary school: St John Baptist High School

First grassroots club: Aberdare Grasshoppers

Current club: Unattached

Previous clubs:

- Aberdare Grasshoppers (grassroots)
- Cardiff City Ladies (grassroots)
- Llwydcoed (grassroots)
- Cyncoed Ladies (2016-2018)
- Cardiff Met (2018-2019)
- Charlton Athletic (2019-2021)
- Bridgwater United (2021)
- Southampton (2021-2025)
- Durham (loan 2025)

Cymru career:

Alice earned twelve caps for Cymru's WU17s between 2016-2017 and four caps for Cymru's WU19s between 2018-2019. Alice was first called up to the Cymru senior squad in 2017 and made her debut in November 2017 in a 1-0 victory against Kazakhstan in the 2019 Women's World Cup qualifiers. Alice has 16 caps for Cymru.

Alice was recalled to the squad towards the end of Gemma Grainger's reign as manager after a period away. Under Rhian Wilkinson, Alice has featured regularly and started the EURO second leg semi-final play-off against Slovakia.

Cymru is special to Alice because "It means so much to my family when I step on the pitch for Cymru, they are special moments that we can share together. Also, because of the team and the feeling I get playing for Cymru. There is no other place/team that can replicate anything close. Alice's first memory of representing Cymru is scoring for the WU17s against Turkey to help Cymru qualify for the Euro Elite round.

Outside of football:

Alice's hobbies and passions outside of football include Formula 1 and spending time with family and friends. Alice is also a passionate Cardiff City fan.

ALICE GRIFFITHS

CAP: 16 | GÔL: –

GÊM GYNTAF:
Kazakhstan 2017/18



Enw: Alice Griffiths

Oed: 24 (22/01/01)

Tref enedigol: Aberdâr, Y Rhondda

Ysgol gynradd: Ysgol Gynradd Abernant

Ysgol uwchradd: Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr

Clwb llawr gwlad cyntaf: Grasshoppers Aberdâr

Clwb presennol: Heb glwb

Clybiau blaenorol:

- Grasshoppers Aberdâr (llawr gwlad)
- Merched Dinas Caerdydd (llawr gwlad)
- Llwydcoed (llawr gwlad)
- Merched Cyncoed (2016-2018)
- Met Caerdydd (2018-2019)
- Charlton Athletic (2019-2021)
- Bridgwater United (2021)
- Southampton (2021-2025)
- Durham (ar fenthyg 2025)

Gyrfa Cymru:

Enillodd Alice ddeuddeg cap gyda thîm D17 Cymru rhwng 2016-2017 a phedwar cap gyda thîm D19 Cymru rhwng 2018-2019. Cafodd Alice ei galw i garfan tîm cyntaf Cymru am y tro cyntaf yn 2017 a pherfformiodd am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2017 mewn buddugoliaeth 1-0 yn erbyn Kazakhstan yng ngemau rhagbrofol Cwpan y Byd i Ferched 2019. Mae gan Alice 16 cap dros Gymru.

Galwyd Alice yn ôl i'r garfan tua diwedd teyrnasiad Gemma Grainger fel rheolwr ar ôl cyfnod i ffwrdd. Dan Rhian Wilkinson, mae Alice wedi ymddangos yn rheolaidd gan ddechrau ail gymal gêm ail-gyfle gynderfynol yr EWRO yn erbyn Slofacia.

Mae Cymru yn arbennig i Alice oherwydd "Mae'n golygu cymaint i fy ngheulu pan fydda i'n camu ar y cae i Gymru, maen nhw'n eiliadau arbennig y gallwn ni eu rhannu gyda'n gilydd. Hefyd, oherwydd y tîm a'r teimlad rwy'n ei gael yn chwarae i Gymru. Nid oes unrhyw le/tîm arall sy'n gallu cynnig unrhyw beth sy'n agos. Atgof cyntaf Alice o gynrychioli Cymru yw sgorio i'r tîm D17 yn erbyn Twrci i helpu Cymru i fynd drwodd i rownd Ewro Elit.

Y tu allan i bêl-droed:

Mae hobiau a diddordebau Alice y tu allan i bêl-droed yn cynnwys Fformiwla 1 a threulio amser gyda theulu a ffrindiau. Mae Alice hefyd yn gefnogwr brwd o GPD Dinas Caerdydd.

ANGHARAD JAMES

CAP: 132 | GOALS: 6

FIRST GAME:
Scotland 2011/12

Name: Angharad James
Age: 30 (01/06/94)
Hometown: Haverfordwest, Pembrokeshire
Primary school: Ysgol Brynconin
Secondary school: Ysgol Y Preseli
First grassroots club: Clarbeston Road
Current club: Seattle Reign (2024-)

Previous clubs:

- Clarbeston Road (grassroots)
- Manorbier Girls (grassroots)
- Arsenal (2010-2011)
- Bristol Academy (2012-2015)
- Notts County (2016)
- Yeovil Town (2017)
- Everton (2017-2019)
- Reading (2019-2021)
- North Carolina Courage (2021)
- Orland Pride (2022)
- Tottenham Hotspur (2022-2024)

Cymru career:

Angharad played more than 30 games for the Cymru age group teams and featured in the WU19 UEFA EURO finals hosted in south Wales in 2013. Angharad was called up to Cymru's Senior team in 2011 and made her debut in October 2011 in a 2-2 draw against Scotland in the UEFA Women's Euro 2013 qualifying round. Angharad earned her 100th cap for Cymru in September 2022 in a World Cup Qualifier against Slovenia, aged 28, making her the youngest ever Cymru player to reach this milestone. She currently has 132 caps for Cymru. Angharad was appointed Cymru captain in 2024.

Cymru is special to Angharad because "It's my identity. I live Cymru every day. We are a family; it's a safe space and special place for me. It's where all my best memories were made, growing up in Pembrokeshire wanting to play for Cymru, to actually achieving that and making history. Many more special times to come."

Angharad's earliest Cymru memory was waiting anxiously for a letter to arrive in the post to let her know if she had been selected for a camp. Receiving that letter and then earning her first cap against Scotland away. When Angharad was growing up women's football wasn't visible as games weren't televised. It wasn't until she moved to Arsenal, where she met Jayne Ludlow, did Angharad realise there was a Cymru women's team. Due to this Jayne Ludlow is an important role model for Angharad.

Outside of football:

A proud Welsh speaker that attended the same secondary school as Joe Allen, Angharad's hobbies and passions include making coffee, interior design, photography and real estate. She is the co-owner of Two Sides Grind, a mobile coffee business and is also passionate about raising awareness of Alzheimer's and supporting St John's Ambulance Service. Angharad is married to Tottenham Hotspur defender Amy Turner.



ANGHARAD JAMES

CAP: 132 | GÔL: 6

GÊM GYNTAF:
Scotland 2011/12

Enw: Angharad James
Oed: 30 (01/06/94)
Tref enedigol: Hwlfordd, Sir Benfro
Ysgol gynradd: Ysgol Brynconin
Ysgol uwchradd: Ysgol Y Preseli
Clwb llawr gwlad cyntaf: Clarbester Road
Clwb presennol: Seattle Reign (2024-)

Clybiau blaenorol:

- Clarbester Road (llawr gwlad)
- Merched Maenorbŷr (llawr gwlad)
- Arsenal (2010-2011)
- Bristol Academy (2012-2015)
- Notts County (2016)
- Yeovil Town (2017)
- Everton (2017-2019)
- Reading (2019-2021)
- North Carolina Courage (2021)
- Orland Pride (2022)
- Tottenham Hotspur (2022-2024)

Gyrfa Cymru:

Chwaraeodd Angharad dros 30 o gemau i dimau grŵp oedran Cymru ac ymddangosodd yn rowndiau terfynol EWRO D19 UEFA i Ferched a gynhaliwyd yn ne Cymru yn 2013. Cafodd Angharad ei galw i dîm cyntaf Cymru yn 2011 a gwnaeth ei hymddangosiad cyntaf ym mis Hydref 2011 mewn gêm gyfartal 2-2 yn erbyn yr Alban yn rowndiau rhagbrofol Ewro 2013 UEFA i Ferched. Enillodd Angharad ei chanfed cap dros Gymru ym mis Medi 2022 mewn gêm ragbrofol Cwpan y Byd yn erbyn Slofenia, yn 28 oed, gan ei gwneud hi'r chwaraewr ieuengaf erioed yng Nghymru i gyrraedd y garreg filltir hon. Ar hyn o bryd mae ganddi 132 o gapiau dros Gymru. Penodwyd Angharad yn gapten Cymru yn 2024.

Mae Cymru yn arbennig i Angharad oherwydd "Dyma fy hunaniaeth. Rwy'n byw Cymru bob dydd. Rydyn ni'n deulu; mae'n lle diogel ac arbennig i mi. Dyma lle cafodd fy holl atgofion gorau eu creu, wrth i mi gael fy magu yn Sir Benfro yn awyddus i chwarae dros Gymru, a chyflawni hynny a chreu hanes. Llauer mwy o amseroedd arbennig i ddod."

Atgof cynharaf Angharad gyda Chymru oedd aros yn bryderus am lythyr i gyrraedd yn y post i roi gwybod iddi a oedd hi wedi cael ei dewis ar gyfer camp. Cael y llythyr hwnnw ac yna ennill ei chap cyntaf yn erbyn yr Alban oddi cartref. Yn ystod magwraeth Angharad, doedd pêl-droed merched ddim i'w weld gan nad oedd gemau'n cael eu darlledu ar y teledu. Dim ond ar ôl iddi symud i Arsenal, lle cyfarfu â Jayne Ludlow, y sylweddolodd Angharad fod yna dîm merched Cymru. Oherwydd hyn mae Jayne Ludlow yn esiampl dda bwysig i Angharad.

Y tu allan i bêl-droed:

Mae Angharad yn siaradwr Cymraeg balch a fynychodd yr un ysgol uwchradd â Joe Allen, ac mae ei hobiau a'i diddordebau'n cynnwys gwneud coffi, dylunio mewnlol, ffotograffiaeth ac eiddo tirol. Mae hi'n gyd-berchennog Two Sides Grind, busnes coffi symudol ac mae hi hefyd yn frwd dros godi ymwybyddiaeth o glefyd Alzheimer a chefnogi Gwasanaeth Ambiwlans Sant Ioan. Mae Angharad yn briod ag amddiffynnydd Tottenham Hotspur, Amy Turner.

CARRIE JONES

CAP: **37** | GOALS: **3**

FIRST GAME:
Faroe Islands 2019/20



Name: Carrie Jones

Age: 21 (04/09/03)

Hometown: Newtown, Powys

Primary school: Ysgol Dafydd Llwyd

Secondary school: Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion

First grassroots club: Newtown White Stars

Current club: IFK Norrköping (2024-)

Previous clubs:

- Newtown White Stars (grassroots)
- Berriew Juniors (grassroots)
- Cardiff City Ladies (2019-2020)
- Manchester United (2020-2023)
- Leicester City (loan 2022-2023)
- Bristol City (2023-2024)

Cymru career:

Carrie played for Cymru's WU15s before earning six caps for the WU17s between 2018-2019. Carrie was called up to the Cymru senior team and earned her first senior cap, aged 15 years and 359 days old, in August 2019 in a 6-0 victory against Faroe Islands in the UEFA Women's Euro 2021 qualifiers. Carrie has 37 caps for Cymru, scoring three goals including the winning goal against Republic of Ireland in Dublin to secure qualification for the UEFA Women's Euro 2025 in Switzerland.

